

Cofnodion y cyfarfod o Fwrdd Chwaraeon Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 9 Gorffennaf 2018 10:30 yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru

Yn bresennol: Lawrence Conway (Cadeirydd), Pippa Britton (Is Gadeirydd), Ian Bancroft (IB), Peter King (PK), Christian Malcolm (CM), Alison Thorne (ATH)

Yn bresennol hefyd: Sarah Powell (PSG), Peter Curran (PC), Graham Williams (GW), Brian Davies (BD), Jane Foulkes (JF), Neil Emberton (NE) (Eitemau 1 i 6.1), Rhian Evans (RE), Amanda Thompson (cofnodion)

Arsylwyr: David Rosser (DR) Llywodraeth Cymru, Lloyd Carr (LC) Llysgenhadon Ifanc

1. Croeso / ymddiheuriadau am absenoldeb

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Richard Parks, Ashok Ahir a Julia Longville.

Diolchodd y Cadeirydd i PK a JL am eu cyfraniad at Fwrdd Chwaraeon Cymru. Byddai'r ddau'n gorffen eu hail dymor yn gwasanaethu ddiwedd mis Awst. Byddai pedwar aelod newydd yn ymuno â'r Bwrdd o fis Medi ymlaen.

Hefyd diolchodd y Cadeirydd i LC gan mai hwn oedd ei gyfarfod olaf yntau fel cynrychiolydd y Llysgenhadon Ifanc. Byddai olynnydd yn cael ei ddewis dros yr haf gan Grŵp Llywio'r Llysgenhadon Ifanc.

Llongyfarchodd y Cadeirydd IB ar ei benodiad diweddar fel Prif Swyddog Gweithredol CBS Wrecsam a JL ar ei phenodiad fel Deon ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd.

Roedd y Gweinidog wedi derbyn ymddiswyddiad Samar Small o'r Bwrdd oherwydd rhesymau personol, i fod yn weithredol ar unwaith.

2. Datgan Budd

IB, fel Prif Swyddog CS Y Fflint a hefyd ei rôl yn y dyfodol gyda CBS Wrecsam, mewn perthynas â phapurau SW(18)26 ac SW(18)31.

3. Adroddiad y Cadeirydd

Cyfarfu'r Cadeirydd, y PSG, CM, Helen Phillips, Cadeirydd Tîm Cymru, ag Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog ar gyfer Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon ar 13 Mehefin. Adlewyrchodd y cyfarfod ar lwyddiannau Tîm Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad a sut byddai hyn yn parhau'n ehangach. Gofynnodd y Gweinidog am adroddiad ar addasrwydd cyfleusterau chwaraeon Cymru ar gyfer anghenion y dyfodol. Byddai'r Cadeirydd a'r PSG yn ymweld â Sport Scotland ar 8 Awst i weld eu cyfleusterau perfformiad elitaidd.

Byddai lansiad y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru'n cael ei gynnal ar 19 Gorffennaf yng Nghanolfan Ymwelwyr Garwnant. Roedd hwn yn ddigwyddiad ar y cyd â lansiad Cronfa Iach ac Egniol Llywodraeth Cymru.

Ar 31 Awst, byddai Cymru'n chwarae yn erbyn Lloegr yng ngêm gymhwysu Cwpan y Byd y Merched FIFA yng Nghasnewydd.

4. Adroddiad y PSG

Creu sefydliad gwyb

- Cynhaliwyd ymweliad Quest ym Mhlas Menai ar 3/4 Gorffennaf ac roedd disgwyl codi'r safon i 'Da Iawn'. Aeth ATH ar ymweliad â Phlas Menai ar 27 Mehefin fel rhan o'r adolygiad o'r Canolfannau Cenedlaethol.

Paratoi chwaraeon ar gyfer llwyddiant

- Roedd yr Arolwg Chwaraeon Ysgol yn cael ei gynnal a gobeithiwyd am fwy nag erioed o ymatebwyr.
- Roedd yr adroddiad 'Gwerth Cymdeithasol ac Economaidd Chwaraeon i Gymru' gan Brifysgol Sheffield Hallem wedi'i dderbyn a byddai'n cael ei lansio ar ôl yr haf.
- Byddai newidiadau polisi UKAD yn cael eu cyflwyno'n ôl ger bron y Bwrdd ym mis Medi ar gyfer eu hystyried.

Galluogi llwyddiant ar y llwyfan rhyngwladol

- Cyflawnwyd llwyddiannau elitaidd diweddar gan athletau, gymnasteg, beicio, bocsiio a hwylio.
- Byddai ymgynghoriad UK Sport yn cael ei drafod gyda'r Bwrdd yn ystod sesiwn y prynhawn.

Arwain datblygiad chwaraeon ym mhob cymuned

- Chwaraeon Cymru wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, gan gynnwys Llysgenhadon Ifanc, gweithdai a chyfleoedd hyfforddi.
- Byddai Jo Stevens AS yn ymweld â Chanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru ar 12 Gorffennaf.

Tir yn Stadiwm Morfa, Abertawe

- Dywedodd PC bod y trafodaethau rhwng y partion amrywiol sy'n gysylltiedig â datblygu'r tir yn estynedig. O ganlyniad, roedd Chwaraeon Cymru wedi cael cyngor i bennu dyddiad ar gyfer derbyn y taliad ac wedi hynny byddai llog yn cael ei godi. Roedd yr arian hwn i fod i fynd yn ôl i adnoddau Loteri Chwaraeon Cymru. Diweddariad nesaf i'r Bwrdd ym mis Medi.

5. Agenda Caniatâd

5.1 Cofnod Ymgysylltu

Atgoffodd y Cadeirydd aelodau'r Bwrdd y dylent hysbysu'r Cynorthwy-ydd Gweithredol o ddigwyddiadau yr oeddent wedi eu mynychu ar ran Chwaraeon Cymru neu lenwi'r cofnod ymgysylltu ar-lein. Cymerodd ATH ran yn hyfforddiant amrywiaeth a chynnwys Sport England. Roedd AA a CM wedi bod yn Nathliad Prosiect DLIE yng Nghasnewydd.

5.2 Arolwg Cenedlaethol ar gyfer Cymru

Nododd yr Aelodau'r adroddiad. Gofynnodd IB am adlewyrchu ar y gostyngiad o 13% ymhlith y grŵp oedran 25-34 o ran cymryd rhan mewn chwaraeon 3 gwaith yr wythnos neu fwy.

Cyf. Papur: SW(18)22

5.3 Cronfa Iach ac Egnïol

Roedd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau cyllid o £3.75m hyd at 2021/22 ar gyfer y gronfa hon. Byddai Chwaraeon Cymru yn ymrwymo hyd at £1.25m i greu cyfanswm o hyd at £5m ar gyfer y gronfa ar gyfer gweithgarwch corfforol. Byddai'r cyllid yn amodol ar Lywodraeth Cymru'n cytuno i'r argymhellion mewn perthynas â'r fenter Nofio Am Ddim.

Roedd y meini prawf ar gyfer y gronfa, a sut byddai'n cael ei gweithredu a'i hasesu, yn dal i gael eu trafod rhwng Chwaraeon Cymru a'i bartneriaid yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru. Y nod oedd gwthio ffiniau, cyllido datrysiadau arloesol a sicrhau cyrhaeddiad ehangach. Byddai bwrdd prosiect yn cael ei sefydlu a byddai'n rhaid i'r tri phartner fod â chyswllt parhaus â'r gronfa. Roedd dull gweithredu'r gronfa hon yn debygol o gael ei ehangu i raglenni cyllid grant eraill. Byddai Chwaraeon Cymru'n sicrhau bod y broses ar gyfer ymgeiswyr yn eu llywio tuag at y rhaglen gyllido fwyaf priodol i'w hanghenion.

Cyf. Papur: SW(18)23

5.4 Rhaglen Cadernid Chwaraeon (Cynnig WSA)

Roedd Cymdeithas Chwaraeon Cymru (WSA) wedi cyflwyno 'Rhaglen cadernid' i Chwaraeon Cymru, yn gofyn am gyllid o £1.4m gan Lywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru. Ffurfiwyd panel annibynnol i graffu ar y rhaglen a chyfarfu ar 14 Mehefin. Roedd y papur yn amlinellu argymhellion y panel a'r angen am ragor o wybodaeth gan y WSA. Nid oes ymateb wedi'i dderbyn gan y WSA hyd yma ond roedd PC wedi cyfarfod â hwy i gynnal y momentwm. Byddai'r Bwrdd yn cael diweddariad pellach yn ei gyfarfod ym mis Medi.

Cyf. Papur: SW(18)24

6. Materion polisi a datblygu

6.1 Diweddariad ar Amrywiaeth Byrddau Partneriaid

Roedd Eitem 15 yn cyflwyno'r sefyllfa bolisi a argymhellir, sef bod Cyrff Rheoli Cenedlaethol effaith uchel a sefydliadau chwaraeon cenedlaethol i gyflawni amrywiaeth rhywiau 50:50 ar eu byrddau erbyn 2020 gan ddefnyddio diffiniad Comisiwn yr UE o gydraddoldeb y rhywiau (o leiaf 40% o ferched a dynion ar fwrdd).

Roedd y Weithrediaeth yn hapus gyda'r adborth a dderbyniwyd gan y Cyrff Rheoli Cenedlaethol. Byddai'n rhaid wrth gefnogaeth deilwredig i helpu Cyrff Rheoli Cenedlaethol i gyrraedd y targed. Fel rhan o'r gefnogaeth honno, byddai'n ofynnol i Gyrff Rheoli Cenedlaethol fod â chynllun gweithredu amrywiaeth bwrdd ac adrodd yn ôl ar gynnydd i'w byrddau eu hunain ac i Chwaraeon Cymru. Roedd Eitem 18 yn amlinellu'r camau gweithredu y gellid eu rhoi ar waith pe na lwyddid i sicrhau cydraddoldeb y rhywiau erbyn 2020.

Roedd yr aelodau'n cydnabod pwysigrwydd datblygu llif o unigolion posib y gellid eu penodi i Fwrdd. Awgrymwyd y byddai pecyn adnoddau'n ddefnyddiol i chwaraeon lefel is/dim cyllid a chlybiau ei ddefnyddio.

Cymeradwyodd yr aelodau'r argymhelliad.

Cyf. Papur: SW(18)25

6.2 Nofio Am Ddim

Roedd yr adolygiad annibynnol o'r Fenter Nofio Am Ddim (MNADd) wedi cael ei ddsbarthu i'r Aelodau. Roedd yn glir nad oedd y ddarpariaeth a'r allbynnau presennol yn cynnig gwerth am arian. Ni ellid rhoi sylw i'r heriau sylfaenol drwy wneud gwelliannau oddi mewn i'r fformat presennol. Cyflwynwyd dau opsiwn ar gyfer dull gwahanol o weithredu: a) menter Nofio A Mwy gwerth £1m a (b) menter Bod yn Egniol gwerth £2m. Cyfarfu'r PSG a GW â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ar 5 Gorffennaf i drafod yr adroddiad a'r opsiynau arfaethedig. Cyflwynodd RE ddiweddariad ar y cyfathrebu arfaethedig i gyd-fynd â'r cynlluniau ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Ar ôl cael trafodaeth bellach, cytunodd yr Aelodau bod y cyfeiriad yn gywir a chymeradwywyd yr argymhelliad. Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog gyda'r argymhellion, er mwyn iddo eu hystyried.

Cyf. Papur: SW(18)26

6.3 Cytundebau cyllid pontio

O gofio y byddai'r strategaeth newydd yn cael ei datblygu yn ystod yr hydref eleni, argymhellwyd gohirio'r broses cyflwyno cyllid partneriaid a'i newid am adolygiad 'ysgafn', gan ymestyn y cytundebau grant presennol am 6 mis o 31 Mawrth tan 30 Medi 2019.

Roedd disgwyl i egwyddorion buddsoddi newydd i gyd-fynd â'r strategaeth newydd gael eu cwblhau erbyn haf 2019. Cynigiwyd cyfnod cyllido 18 mis newydd, rhwng mis Hydref 2019 a mis Mawrth 2021. Byddai diweddariad gyda'r ffigurau hysbys yn cael ei gyflwyno'n ôl ger bron y Bwrdd ym mis Chwefror y flwyddyn nesaf.

Cymeradwyodd yr aelodau'r argymhellion.

Cyf. Papur: SW(18)27

6.4 Diweddariad y Strategaeth Tymor Hir

Byddai'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yn cael ei lansio ar 19 Gorffennaf, ar y cyd â chronfa Iach ac Egniol newydd Llywodraeth Cymru, ac roedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu'n ffurfiol at y Gweinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet am sylwadau am y Weledigaeth a chefnogaeth iddi. Byddai'r gronfa'n cael mynediad i hyd at £5m dros gyfnod o ddwy flynedd.

O ran y strategaeth newydd, byddai'r Bwrdd yn gweld drafft ym mis Medi, gyda'r bwriad o gymeradwyo ym mis Tachwedd. Byddai'r strategaeth yn gofyn am adolygiad manwl o Chwaraeon Cymru mewn perthynas â'r sgiliau a'r swyddogaethau gofynnol i'w rhoi ar waith. Roedd y prosiect cyflog a graddfa ar fin cael ei gwblhau hefyd. Roedd bwlch o ran adnoddau a'r lefel arbenigedd ofynnol i gefnogi cyflwyno'r ddwy raglen fawr yma'n effeithiol a byddai'r PSG yn ceisio rhoi sylw i hynny. Gofynnwyd am sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i weithio ochr yn ochr â'r Cadeirydd a'r PSG a chymeradwyo adnoddau arbenigedd mewn rheoli newid.

Cymeradwyodd yr aelodau'r argymhellion.

Cyf. Papur: SW(18)28

6.5 Cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Roedd y papur hwn yn atgoffa'r Bwrdd o'i gyfrifoldebau ac yn datgan trefniadau adrodd yn ôl a monitro ar gyfer y rheoliad GDPR newydd. Roedd Chwaraeon Cymru wedi recriwtio Swyddog Diogelu Data (SDD) a fyddai'n gwneud cyflwyniad i'r Bwrdd yn nes ymlaen yn ystod y dydd. Cytunodd yr aelodau y dylai'r craffu manwl ar gydymffurfiaeth a chynnydd yn erbyn y cyflwyniad gael ei

ddirprwyo i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ac y dylid defnyddio'r Fframwaith Sicrwydd er mwyn asesu'r risgiau cymharol a'r blaenoriaethau cysylltiedig yn amgylchedd y GDPR.

Cymeradwyodd yr aelodau'r argymhellion.

Cyf. Papur: SW(18)29

7. Cyllid a risg gorfforaethol

7.1 Cyfrifon statudol 2017/18

Gofynnwyd i Aelodau'r Bwrdd gymeradwyo Datganiadau Ariannol 2017/18 ar gyfer

7.1.1 Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru

7.1.2 Cyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru

7.1.3 Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru

Roedd y Pwyllgor Archwilio a Risg wedi cymeradwyo'r datganiadau hyn yn ei gyfarfod ar 22 Mehefin 2018. Diolchodd PC i'r Tîm Cyllid am ei ymrwymiad i ddarparu'r cyfrifon yn fanwl gywir a phrydlon.

Tynnwyd sylw'r Aelodau at y gronfa adbriso (eitem 9) a nodwyd bod y Pwyllgor Archwilio a Risg yn fodlon â gwerth adolygedig Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru.

Roedd y gronfa bensiwn (eitemau 10-11) wedi'i hadrodd i'r Bwrdd yn gynharach ym mis Mai. Byddai'r adolygiad pensiwn tair blynedd nesaf yn cael ei gynnal ym mis Mawrth 2019. Roedd yn debygol y byddai'n rhaid i Chwaraeon Cymru adolygu ei bolisi pensiwn wrth symud ymlaen a byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno'n ôl ger bron y Bwrdd yn fuan.

7.2 Adroddiadau'r Archwilwyr Allanol (ISA 260)

Roedd Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) wedi cwblhau ei harchwiliad blynyddol ac nid oedd unrhyw faterion yn weddill. Cafwyd un argymhelliad mewn perthynas â chadw gwaith papur. O ran yr archwiliad allanol ar gyfer y Loteri, a gynhaliwyd gan SAC ar ran y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, cofnodwyd pob maes yn gyflawn a chynhwyswyd y crynodeb o'r diwygiadau i'r datganiadau ariannol drafft.

Cymeradwyodd Aelodau'r Bwrdd gyfrifon Cyfnerthedig CChC a'r Ymddiriedolaeth, cyfrifon y Loteri a chyfrifon yr Ymddiriedolaeth.

Cyf. Papur: SW(18)30

8. Gweithgorau a phwyllgorau sefydlog

8.1 Pwyllgor Archwilio a Risg (PAR)

Byddai'r Bwrdd yn edrych ar gylch gorchwyl adolygedig i'r PAR ym mis Medi. Cyflwynodd Deloitte LLP, a ailbenodwyd ym mis Mawrth fel archwilwyr mewnol, adroddiad perfformiad archwilio mewnol a rhaglen tair blynedd. Hefyd roedd amserlen fusnes y PAR wedi'i chyflwyno a byddai PC yn ychwanegu adroddiad blynyddol ar gyfer polisi gwrth-dwyll. Hwn oedd cyfarfod olaf PK fel Cadeirydd y PAR a byddai Cadeirydd newydd yn cael ei benodi mewn pryd ar gyfer mis Medi.

8.2 Bwrdd Prosiect CSAP

Ar gyfer y cam Mynegi Diddordeb, roedd 3 partneriaeth wedi gwneud cais fel arweinwyr prosiect ac roedd 13 wedi gwneud cais am fod yn bartneriaid cyflawni allweddol. Roedd angen gwybodaeth bellach gan y 3 chais am fod yn arweinwyr prosiect, a gofynnwyd am yr wybodaeth honno erbyn 13

Gorffennaf, cyn sgorio'n ffurfiol ar 17 Gorffennaf. Wedyn byddai Bwrdd y Prosiect yn argymhell sut orau i symud ymlaen, drwy bartneriaeth wedi'i threfnu, proses dendro lawn neu ddull arall.

Cytunodd Aelodau'r Bwrdd i'r Cadeirydd weithredu ynghylch y penderfyniad hwn fel bod yr argymhelliad yn mynd ger bron y Gweinidog ar gyfer ei gymeradwyaeth cyn seibiant yr haf.

Cyf. Papur: SW(18)31

9. Grwpiau cynghori

9.1 Adroddiad Grŵp Llywio'r Llysgenhadon Ifanc

Cafwyd adroddiad gan LC ar Gynhadledd y Llysgenhadon Ifanc Aur a'r camau yr oedd awdurdodau lleol yn eu cymryd i gynnal eu cynadleddau eu hunain. Roedd hyfforddiant yn cael ei gynnal ac roedd y Llysgenhadon Ifanc wedi parhau i fod yn weithredol mewn ysgolion, gan gynnwys cynnal dyddiau aml-chwaraeon. Roedd y Llysgenhadon Ifanc wedi cyfarfod â PSG Sport New Zealand pan ddaeth ar ymweliad diweddar â Chwaraeon Cymru. Roedd yr ap tracio gwirfoddolwyr wedi mynd yn fyw ac wedi denu sylw o'r tu allan i'r sector chwaraeon.

10. Cofnodion y cyfarfod diwethaf (15 Mai 2018) a materion yn codi

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod manwl gywir.

10.1 Materion yn codi

Cyf: 5.4: Diweddariad cyflog a graddfa: Byddai hwn yn dod yn ôl ger bron y Bwrdd ym mis Medi. Cafwyd cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru. Roedd trafodaethau'n parhau gydag Undeb y PCS ac roedd disgwyl iddynt gynnal pleidlais gyda'r holl staff yn Chwaraeon Cymru cyn yr hydref.

11. Unrhyw Fater Arall

Tynnodd yr Is Gadeirydd sylw'r Aelodau at adroddiad Hunanasesu Rhestr Wirio Disgwyliadau Gofynnol Chwaraeon Cymru GLFW. Byddai hwn yn cael ei gyflwyno eto ar gyfer trafodaeth bellach yng nghyfarfod mis Medi.


12. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf

10/11 Medi ym Mhlas Menai, 26/27 Tachwedd 2018

11/12 Chwefror, 13/14 Mai, 8 Gorffennaf, 9/10 Medi, 25/26 Tachwedd 2019

Daeth y cyfarfod i ben am 13:05

Llofnod



..... Lawrence Conway CB, Cadeirydd

Dyddiad: 2018